SAFLE DATGOMISIYNU TRAWSFYNYDD

COFNODION TRYDYDD CYFARFOD GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN YMWELWYR TRAWSFYNYDD DDYDD GWENER 9 RHAGFYR 2005

YN BRESENOL

Y Cynghorydd J I Williams	Cadeirydd

British Nuclear Group

Mr S J Parsons	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr R S Ward	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr T L Knight	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr R W Jones	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr J J Edwards	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr T Gaskell	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Dr H M Jones	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr R Foxhall	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr A J Wilson	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mrs L R Williams	Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Mr N Monckton	Cyfathrebu, Sellafield

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (ADN)

Dr Sara Johnston	Rheolwraig Rhaglen y Safle, ADN, Trawsfynydd
Mr Glen Vaughan	Rheolwr Gweithrediadau, ADN Trawsfynydd
Mr Andrew Craze	Rheolwr Amgylcheddol, ADN

Cyngor Gwynedd

Y Cynghorydd T G Ellis
Y Cynghorydd E Williams

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mr Iwan Jones
Mr K T O'Brien
Mr P Weston

Sefydliadau Eraill

Mr S Conney	Asiantaeth Safonau Bwyd
Yr Arolygydd M Ellis	Gorsaf yr Heddlu, Blaenau Ffestiniog
Mrs D M Evans	Merched y Wawr
Mr C G Hardman	Asiantaeth yr Amgylchedd
Mr I Lloyd	Deudraeth Cyf
Mr Aled Jones	Cymen
Mrs N W Jones	Undeb Amaethwyr Cymru
Mr G Owen	Cyngor Cymuned Penrhyndeudraeth

Dr A Punt	Enviros
Ms Catrin Roberts	Awdurdod Datblygu Cymru
Y Cynghorydd Emlyn Roberts	Cyngor Cymuned Llanfrothren
Mr B Williams	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Y Cynghorydd D M Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Mr I W Williams	Trawsnewid

1 Yn ymddiheuro am eu Habsenoldeb

Dr B Burnett, ADN
Mr A A Hall, Dŵr Cymru
Mrs S Hutchison, Arolygwr Safle, Arolygwyr Gosodiadau Niwclear (NII)
Mr E S Jones, Cyngor Gwynedd
Mr T I Morris, Deudraeth Cyf
Y Cynghorydd Caerwyn Roberts, Cyngor Gwynedd
Mr K Roberts, British Nuclear Group
Ms S Thompson, Gwasanaeth Ambiwlans
Mr J Williams, Wylfa GRhS

2 Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2005

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodion.

3 Materion yn Codi o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2005

Yn dilyn yr argymhellion a wnaethpwyd yn y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd fforwm i drafod Strategaeth Ddrafft ADN. Anfonwyd sylwadau at yr ADN ac mae adroddiad ar gael i bob aelod. Gofynnodd yr ADN am ganiatâd y grŵp i gyhoeddi'r sylwadau ar eu gwefan. Dywedodd Mr Keith O'Brien mai gorau po fwyaf o wybodaeth oedd ar gael ar y wefan. Cynigiodd Mr Peter Weston fod yr awgrym yn cael ei dderbyn, ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol.

Holodd y Cadeirydd a oedd Mrs Deilwen Evans wedi cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig ynghylch yr Arolwg o'r Llyn. Dywedodd Mrs Evans ei bod am gael ateb i'r cwestiynau yn y cyfarfod er mwyn i bob aelod gael clywed yr atebion. Ychwanegodd Mrs Evans y byddai'n cysylltu'r hyn a oedd yn adroddiad Enviros gydag adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd a Mrs L V Gucci. Dywedodd Mrs Evans nad oedd yn hapus gyda thôn y llythyr a dderbyniodd oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd. Ymddiheurodd Mr Hardman am unrhyw ddrwgdeimlad a achoswyd gan y llythyr ond yr oedd yn awyddus i roi atebion o safon uchel a dyna'r rheswm pam ei fod y gofyn am gwestiynau ysgrifenedig.

Aeth Mr Hardman yn ei flaen i egluro'r term "ymolchi" ac awgrymodd y byddai "gwacáu" yn derm gwell. Holodd Mrs Evans a oedd yr holl wacau yn ganlyniad i achosion naturiol ynteu a oedd rhywfaint yn cael ei wneud yn fwriadol. Dywedodd Mr Hardman nad oedd yn ymwybodol fod unrhyw beth yn cael ei wneud yn fwriadol.

Wrth ateb y cwestiwn ar ba ddata oedd wedi'u defnyddio i baratoi adroddiad Enviros, dywedodd Mr Hardman mai Data Asiantaeth yr Amgylchedd, y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Gweithredwyr a ddefnyddiwyd.

Gofynnodd Mrs Deilwen Evans a oedd Adroddiad Cyfrinachol 1988 wedi ei ddefnyddio.

Cadarnhaodd Dr Adrian Punt fod data o'r adroddiad hwn wedi'u defnyddio.

Gofynnodd y Cynghorydd D M Williams faint o halogwyr sy'n cyrraedd yr afonydd o'r llyn.

Atebodd Dr Adrian Punt trwy ddweud mai dim ond 1% o'r gweithgarwch a gollir o'r llyn trwy Afon Gwylan, gyda'r mwyafrif trwy Bwerdy Maentwrog.

Gofynnwyd a oedd yr adroddiad yn cyfrifo faint o blwtoniwm sydd ar ôl yn y llyn.

Dywedodd Mr Hardman fod mantolen gweithgarwch wedi'i gynnal sy'n dangos faint o weithgarwch a oedd yn weddill yn y llyn o arllwysiadau hanesyddol.

Dywed un o'r adroddiadau nad oes unrhyw halogiad/ymbelydredd ym Maentwrog – Sut allwn ni fod yn siŵr fod hyn yn wir os nad ydym yn monitro'r sefyllfa?

Ymddiheurodd Mr Andrew Craze, Swyddog Amgylcheddol yr ADN am unrhyw gamsyniad ar ran yr ADN wrth gyfeirio at Faentwrog. Roedd eu hadroddiad yn cyfeirio at ymbelydredd a achoswyd gan weithgarwch Maentwrog yn unig. Nid yw'r ADN yn rhagweld unrhyw gynlluniau i newid Maentwrog na Llyn Trawsfynydd.

4 <u>Anerchiad y Cadeirydd</u>

Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod fod wyth mis wedi mynd heibio bellach ers i'r ADN gyrraedd safle Trawsfynydd. Mae perthynas waith a chyd-ddealltwriaeth dda rhwng y perchnogion a'r contractwyr – Dr Sara Johnston a Dr Brian Burnett ar yr un llaw a Mr Simon Parsons ar y llall. Mae'r Cadeirydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd cwsmer misol. Ddiwedd mis Medi bu bwrdd cyfan yr ADN yn ymweld â Thrawsfynydd a chafwyd sylwadau ac adborth ardderchog ganddynt wrth iddynt adael y safle.

Yn ystod y mis diwethaf bu'r Cadeirydd, ynghyd â Mr Keith O'Brien yn ymweld â Hanford yn Nhalaith Washington yn yr UDA. Mae Hanford yn safle a sefydlwyd ym 1943 ar gyfer Prosiect Manhattan, a adeiladodd y ddau fom a ollyngwyd ar Siapan. Mae'r safle'n ymestyn ar draws 596 milltir sgwâr gyda naw adweithydd yn cynhyrchu plwtoniwm, ac mae'r rhain yn y broses o gael eu dadgomisiynu. Cafwyd croeso cynnes gan drigolion Richland. Cynhaliwyd amryw o gyfarfodydd i drafod y broses ddadgomisiynu a'r opsiynau ar gyfer glanhau'r safle. Fel person lleyg, daeth y Cadeirydd i'r casgliad fod ein gweithwyr ni yn y diwydiant, ar Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd ac yn y Deyrnas Unedig, yn broffesiynol a chydwybodol iawn yn y modd maent yn trin a thrafod gwastraff niwclear. Pwysleisiodd y ffaith ein bod yn ffodus yn y wlad hon o gael rheoleiddwyr sy'n goruchwylio'r diwydiant cyfan – o ran iechyd a'r amgylchedd.

Bu'r grŵp hefyd yn ymweld â Chanolfan Hammer, cyfleusterau a grëwyd i ddysgu a delio gyda gwaith mewn gosodiadau niwclear, ymladd tanau, damweiniau gyda nwy neu olew a damweiniau mewn mannau cyfyng. Heriodd y Cadeirydd yr ADN i greu cyfleusterau o'r fath ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Byddai'n manteisio ar arbenigedd y gweithlu presennol i ail hyfforddi cenedlaethau'r dyfodol.

Yn olaf, pwysleisiodd eto waith da Mr Simon Parsons a'i holl ymdrechion wrth ail hyfforddi'r staff presennol i ddysgu sgiliau newydd i alluogi blynyddoedd lawer o ddadgomisiynu pwerdai niwclear, i ddenu gweithwyr newydd ifanc gan fod galw mawr am waith monitro i sicrhau diogelwch y gweithwyr a'r cyhoedd. Mae ei ymdrechion yn gwbl ddiffuant a gonest a'i brif nod yw gwella ansawdd bywyd trigolion yr ardal. Dylem ni fel rhanddeiliaid gynnig pob cefnogaeth iddo yn ei waith.

5 Adroddiad Rheolwr y Safle

Cyflwynodd Mr Parsons y newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y cynnydd rhagorol a wnaethpwyd yn Nhrawsfynydd ers y cyfarfod diwethaf trwy ddangos cyfres o sleidiau ffotograffig.

Un o'r prif weithgareddau a gafodd flaenoriaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf oedd dechrau ar y gwaith i dorri'r boeleri er mwyn gostwng uchder adeiladau'r adweithydd, fel y cytunwyd arno yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Torrwyd y boeler cyntaf ddydd Iau 8 Rhagfyr 2005 gyda'r BBC yn bresennol. Hysbysodd Mr Parsons y cyfarfod y byddai toeau capio'n cael eu hadeiladu y tu mewn i adeiladau'r adweithydd presennol, byddai'n rhaid codi'r holl gylchedau i baratoi ar gyfer gostwng yr uchder, bydd y prif foeleri ager yn cael eu torri'n rhannol a'u storio yn y gofod a grëir. Mae'r offer i godi'r boeleri ar y safle wedi'i gynllunio'n bwrpasol i'r perwyl hwn. Mae darnau'r boeleri'n debygol o aros ar y safle am 70 o flynyddoedd.

Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol – Cyflwynwyd gwaith concrit pwrpasol ar y safle i gynhyrchu'r concrit sydd ei angen ar gyfer storfa GLG. Mae peiriannau mawr yn cael eu defnyddio ac mae'r sylfaeni wedi'u gosod eisoes ac mae trawstiau'r llawr yn cael eu gosod. Bydd pecynnau GLG yn cael ei storio yma. Y GLG yw'r unig berygl sydd ar ôl ar y safle – mae dau flwch o Weddillion Elfennau Tanwydd (FED) eisoes wedi'u prosesu, eu hadennill a'u mewngapsiwleiddio. Trawsfynydd yw'r safle cyntaf yn y DU i adennill FED. Cydrannau Egnïoledig Amrywiol (MAC) – mae'r cyfan wedi'u hadennill ym mhen y De, ac yn awr symudir i ben y Gogledd i'w hadennill o Adweithydd 2.

Mae rhwng 450 a 500 o bobl ar y safle ar hyn o bryd gyda'r rhan fwyaf o'r contractwyr yn cael eu cartrefu yn safle'r hen Neuadd Dyrbin.

Adeilad y Pyllau – Bydd lonydd adeiladau'r pyllau'n cael eu brasnaddu er mwyn eu rhyddhau. Byddant yn cael eu brasnaddu o bell gan ddefnyddio peiriannu i sicrhau nad yw'r staff yn derbyn dognau diangen o ymbelydredd. Mae ymarferiad ffug wedi ei gynllunio'n allanol i ymarfer y gwaith.

Dangoswyd lluniau o'r Adeilad Pwmpio Oeri Dŵr a'r Bont Bailey wedi ei dymchwel a'r safleoedd yn dychwelyd at natur. Roedd Mr Parsons yn gobeithio bod y sleidiau wedi rhoi syniad i'r aelodau o'r hyn yr ydym yn ei wneud ac yn ceisio'i gyflawni.

Aeth Mr Parsons yn ei flaen i ddweud ei fod yn gwbl ymroddedig i ail ddysgu sgiliau ac ail hyfforddi staff gan fod y sgiliau a fydd eu hangen yn ystod y gwahanol gamau'r broses ddadgomisiynu'n amrywio. Dywedodd wrth yr aelodau ei fod yn gobeithio trefnu Ffair Swyddi yn y flwyddyn newydd a'i fod yn gobeithio y bydd pobl leol yn dod i weithio ar y safle.

6 Adroddiad Blynyddol Ffisegydd Iechyd y Safle

Cafodd yr aelodau ddiweddariad gan Mr Robin Ward, Ffisegydd Iechyd y Safle, gyda'i adroddiad blynyddol, a diolchodd i Mrs L Van Gucci am gynhyrchu'r adroddiad. Dywedodd wrth yr aelodau fod pob dogn ymbelydrol o fewn y cyfyngiadau a ganiateir a bod arolygon tynnu dwythell boeth a boeleri llwyddiannus wedi'u cynnal – gwaith newydd mewn amgylchiadau anodd.

Dangosodd gyfres o graffiau:

Gweithgarwch carbon-14 mewn aer llestr – cafwyd eglurhad gan Mr Ward am y darlleniad uchel trwy esbonio nad oedd un treiddiad wedi'i selio ac o ganlyniad roedd dŵr yn cael mynediad.
Dognau Ymbelydredd i Weithwyr ar y Safle
Gwastraff Lefel Isel a anfonwyd i Drigg
Allyriadau Hylifol i'r Llyn
Bq/kg o Cs-137 mewn gwaddodion wyneb o Afon Dwyryd

Gofynnodd y Cynghorydd D M Williams a oedd modd cael rhagor o fanylion ar graff Mr Ward ar Gelli Grin a Phont Llechryd. Roedd yn credu y byddai hynny'n tawelu meddwl y cyhoedd. Cytunwyd i'w cynnwys gyda'r cofnodion.

Gofynnodd y Cynghorydd Williams a oedd samplau'n parhau i gael eu cymryd o'r afonydd – dywedodd Mr Ward fod samplau'n dal i gael eu cymryd o Afonydd Gwylan a Phrysor ond nid o Afon Dwyryd.

7 <u>Adroddiad y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynllunio Brys</u>

Clywodd yr aelodau ddiweddariad gan Mr Ward ar y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio Brys a gynhaliwyd ar y cyd gyda Phwerdy Wylfa. Cynhaliwyd ymarferiad i ddangos y trefniadau diwygiedig ym mhob un o safleoedd dadgomisiynu'r Cwmni ar noson yr 8 Chwefror 2005 a chynhaliwyd ymarferiad Lefel 1 ar 15 Tachwedd 2005. Cynhelir ymarferiad Lefel 2 ym Mehefin, ond os bydd gwaith i ddangos nad yw Trawsfynydd bellach o fewn cyfyngiadau REPPIR ar gyfer gweithgarwch allyrru, mae'n bosibl y caiff yr ymarferiad ei ganslo.

Mae system radio cerbyd argyfwng newydd, sy'n seiliedig ar y system Airwaves a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Brys, wedi ei gosod yn Nhrawsfynydd a'r Wylfa. Nid yw'r system wedi ei chomisiynu yn Nhrawsfynydd eto. Cynhelir yr EPCC nesaf yn yr Wylfa ar 28 Chwefror 2006.

8 <u>Adroddiad gan Arolygwyr Gosodiadau Niwclear</u>

Ymddiheurodd Mrs Sheila Hutchison, Arolygydd NII y safle, na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod. Mae dau adroddiad wedi'u hanfon i'r aelodau ers y cyfarfod diwethaf.

9 <u>Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd</u>

Derbyniodd y cyfarfod adroddiad gan Stuart Conney ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Dywedodd wrth yr aelodau fod Diogelwch Bwyd yn ganolog i waith yr asiantaeth. Mae'n gorff annibynnol sy'n monitro Trawsfynydd. Mae'r Asiantaeth yn asesu effeithiau allyriadau ymbelydrol ar iechyd y cyhoedd. Cynhaliwyd arolwg o

gynefinoedd yn ardal Trawsfynydd ym Mehefin 2005 a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn deuddeng mis gyda pheth o'r data wedi'u hepgor o ganlyniad i ofynion y Ddeddf Diogelu Data.

Tynnodd y Cynghorydd T G Ellis sylw'r cyfarfod at erthygl a gyhoeddwyd mewn papur newydd lleol yn ddiweddar lle cafwyd awgrym fod ffermydd sydd i gyfeiriad y gwynt o Drawsfynydd yn dal i gael eu profi yn dilyn y digwyddiad yn Chernobyl, a bod awgrym bod cysylltiad rhwng hyn â Thrawsfynydd.

Dywedodd Mr Conney nad oedd yn credu fod y canlyniadau'n cael eu heffeithio gan Drawsfynydd; ychwanegodd fod y Caesium-134 byrhoedlog wedi'i ganfod yn dilyn Chernobyl ond ei fod wedi diflannu erbyn hyn ac mai dim ond y Caesium-137 mwy hirhoedlog a ganfuwyd sy'n ei gwneud yn anodd iawn i wahaniaethu rhwng Chernobyl a Thrawsfynydd. Cadarnhaodd Mr Conney hefyd mai dim ond un fferm a oedd yn cynhyrchu llefrith yn lleol felly cymerwyd sampl o'r fferm agosaf wedyn.

Holodd y Cynghorydd D M Williams a oedd unrhyw waith monitro'n cael ei wneud cyn yr ugain mlynedd diwethaf (digwyddiad Chernobyl). Dywedodd Mr Conney fod defaid wedi bod yn cael eu monitro o'r cychwyn ac ychwanegodd y Cadeirydd fod gwaith monitro wedi dechrau ddwy flynedd cyn i'r safle ddechrau cynhyrchu trydan.

10 Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Dywedodd Mr Hardman wrth yr aelodau nad oedd ganddo unrhyw sylwadau pellach.

11 Unrhyw Fater Arall

Dywedodd Dr Sara Johnston o'r ADN wrth yr aelodau fod cynnydd y gwaith dadgomisiynu a wnaethpwyd yn safle Trawsfynydd yn esiampl i weddill y Deyrnas Unedig. Dywedodd fod gwelliant sylweddol wedi bod ers 1 Ebrill 2005 pan gymerodd ADN yr awenau. Ailadroddodd Dr Johnston unwaith eto ei chanmoliaeth o'r sgiliau ar y safle a'r defnydd o lafur lleol. Mae'r tîm canolog ym mhrif swyddfa ADN yn cynhyrchu cylchlythyr i bob rhanddeiliad ac roeddent yn awyddus i dderbyn cyfraniadau o safle Trawsfynydd ar faterion Economaidd Gymdeithasol gan eu bod yn cael eu hystyried fel arweinwyr yn y maes hwn.

Roedd yr ADN hefyd yn awyddus i glywed sylwadau Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar gyflyrau diwedd – hynny yw, cyflwr ffisegol y safleoedd ar ôl i'r ADN gwblhau ei waith. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn argymhellion GRhS yw 31 Rhagfyr 2006. Awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfod panel i drafod y mater.

Holodd y Cynghorydd D M Williams a ellid dosbarthu copi o'r llythyr y cyfeiriodd y Cadeirydd ato ymhlith yr aelodau. Caiff ei ddosbarthu gyda'r cofnodion.

Cafwyd cais gan yr ADN yn gofyn a ellid cyhoeddi sylwadau GRhS Trawsfynydd ar Strategaeth ADN ar wefan yr ADN. Roedd Mr Keith O'Brien o'r farn fod rhannu gwybodaeth yn beth da a derbyniodd yr aelodau hyn.

I gloi'r cyfarfod gwahoddodd y cadeirydd yr aelodau i ymweld â'r safle ym mis Ebrill gyda'r cyfarfod arferol i gael ei gynnal ym mis Mehefin. Byddai'r dyddiadau'n cael eu cadarnhau a byddai gwahoddiadau'n cael eu hanfon at yr aelodau.